# Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020

**2020 dsc 1**

## RHAN 4

CORFF LLAIS Y DINESYDD AR GYFER IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

*Sefydlu ac amcan cyffredinol etc. Corff Llais y Dinesydd*

### 13 Amcan cyffredinol

(1) Amcan cyffredinol Corff Llais y Dinesydd, wrth arfer ei swyddogaethau, yw cynrychioli buddiannau'r cyhoedd mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

(2) At ddibenion cyflawni'r amcan hwnnw, rhaid i Gorff Llais y Dinesydd geisio barn y cyhoedd, ym mha ffordd bynnag y mae'n meddwl ei bod yn briodol, mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

(3) Wrth wneud trefniadau i gydymffurfio ag is-adran (2), rhaid i Gorff Llais y Dinesydd roi sylw'n benodol i bwysigrwydd sicrhau, pan fo'n briodol, ymgysylltu wyneb yn wyneb rhwng ei staff, neu unrhyw bersonau eraill sy'n gweithredu ar ei ran, ac unrhyw unigolion y ceisir barn oddi wrthynt.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 13 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 29(2)**

**I2** A. 13 mewn grym ar 1.4.2023 gan O.S. 2023/370, **ergl. 3(1)(j)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, Adran 13.